# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Chwefror 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** O ran plant gydag awtistiaeth ddifrifol sy'n ceisio cael mynediad at Addysg Bellach, a wnaiff y Gweinidog ddarparu ystadegau ar gyfer nifer y penderfyniadau a wnaed ar geisiadau am gyllid ar gyfer lleoedd preswyl arbenigol erbyn diwedd mis Mawrth/ Mai/ Gorffennaf/ Medi/ Tachwedd 2009 yn eu tro. (WAQ55615)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Mae'r wybodaeth a geisiwyd ynghylch ceisiadau ariannu a gymeradwywyd ar gyfer addysg bellach breswyl arbenigol i ddysgwyr ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn 2009 fel a ganlyn:

| Cais: | **Ion** | **Chwef/ Mawrth** | **Ebrill/Mai** | **Meh/Gorff** | **Awst/Medi** | **Hyd/Tach** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Derbyniwyd | 8 | 7 | 3 | 1 | 0 | 0 | **19** |
| Cymeradwywyd (1) | dd/g | 1 | 1 | 8 | 9 | 0 | **19** |

(1). Ariannwyd pob cais ond un o'r uchod ar y cyd.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** O ran y gwelliannau i'r A477 o Sanclêr i Ros-goch, pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i beryglon llifogydd, ac yn benodol y peryglon llifogydd i Landdowror (WAQ55614)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

We are aware of the floods, which affected Llanddowror in November 2009 and October 2008.

We are working closely with both Carmarthenshire County Council and the Environment Agency Wales with regard to flooding on the existing A477.

For the A477 Improvement, design parameters were agreed and flood modelling has been undertaken to demonstrate the effect of the proposed embankment on existing flooding on the floodplains of the rivers Taf and Hydfron. This modelling has been reviewed by the Environment Agency Wales and they are content.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o adroddiad cynnydd grŵp gweithredu adroddiad Routledge, dan arweiniad yr Athro Mike Harmer, ac a wnaiff ddatganiad. (WAQ55616)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ran gweithredu adroddiad yr Athro Phil Routledge ar wella argaeledd meddyginiaethau, ac a wnaiff ddatganiad. (WAQ55617)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

Mae Grŵp Gweithredu Adroddiad Routledge wedi cyflwyno adroddiad cynnydd interim i mi. Mae hwn yn dangos bod yr holl argymhellion ar gyfer gwella mynediad at feddyginiaethau wrthi'n cael eu gweithredu. Rwy'n disgwyl yr adroddiad terfynol gan y Grŵp ym mis Mawrth 2010.

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o oblygiadau adnoddau ariannol adroddiad yr Athro Phil Routledge ar wella argaeledd meddyginiaethau, ac a wnaiff ddatganiad. (WAQ55618)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

Rwyf wedi cytuno'n ddiweddar i roi £801,000 o arian ychwanegol yn 2010/11 i gefnogi'r gwaith o weithredu'r argymhellion yn adroddiad yr Athro Routledge ac i gefnogi ein gwaith o wella mynediad at feddyginiaethau yng Nghymru ymhellach.

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am aelodaeth grŵp gweithredu adroddiad Routledge, dan arweiniad yr Athro Mike Harmer. (WAQ55619)

***Rhoddwyd ateb ar 19 Ebrill 2010***

Arweinir y Grŵp Gweithredu gan Dr Stephan Hunter, y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol a'r cadeirydd yw'r Athro Roger Walker. Yr aelodau eraill yw:
Yr Athro Phil Routledge
Prif Gynghorydd Fferyllol Dros Dro
Athro Oncoleg
Meddyg Ymgynghorol yn y GIG
Fferyllydd BILl
Cyfarwyddwr Adnoddau BILl a chynrychiolwyr o:
Grŵp Cydgysylltu Gwasanaethau Canser.
Partneriaeth Meddyginiaethau Cymru
Canolfan Ganser Felindre
Coleg Brenhinol y Nyrsys
Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain yng Nghymru
Partneriaeth Meddyginiaethau Cymru
Cymdeithas Feddygol Prydain
Sefydliad Ymchwil Iechyd Abertawe

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru ):** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau bod Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan yn gorffen gwerthuso unrhyw feddyginiaethau nad ydynt ar y rhaglen NICE cyn pen chwe mis o gael cais gan gwmni. (WAQ55621)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Ceir gwybodaeth am broses y Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) o arfarnu meddyginiaethau newydd ar wefan AWMSG yn:
http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=371&pid=9323

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi’u cymryd i gynnal archwiliad o’r defnydd a wneir o feddyginiaethau canser heb label. (WAQ55622)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Mae gwybodaeth yn cael ei choladu ar hyn o bryd i'w gynnwys yn Adroddiad Grŵp Gweithredu Routledge a gaiff ei gyflwyno i mi ym mis Mawrth.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi’u cymryd i sicrhau mynediad cyfartal at brosesau achosion eithriadol. (WAQ55623)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Fe'ch cyfeiriaf at yr atebion a roddais ar 18 Medi a 5 Tachwedd 2009. Dosbarthwyd canllawiau dros dro ar 12 Hydref i'r Byrddau Iechyd Lleol yn amlinellu'r arfer da i'w ddilyn wrth ymdrin â cheisiadau am gyllid eithriadol, i sicrhau bod y broses yn agored a thryloyw. Caiff prosesau diwygiedig eu rhoi ar waith o 1 Ebrill 2010 i gwmpasu'r holl benderfyniadau ynghylch cyllid eithriadol a'r hawl i gael triniaeth, gan gynnwys dull o adolygu a chynnal apêl annibynnol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa asesiad y mae’r Gweinidog wedi’i wneud o’r argymhellion yn Adolygiad Richards ynghylch taliadau atodol, ac a wnaiff ddatganiad. (WAQ55624)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Mae'r argymhellion a geir yn Adolygiad Richards yn ganolog i'r gwaith y mae Grŵp Gweithredu Routledge yn ei ddatblygu a byddant yn allweddol wrth fynd i'r afael â thaliadau ar y cyd.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae’r Gweinidog wedi’u cymryd i gyflwyno canllawiau cenedlaethol ar gyfer y strwythurau sydd eu hangen a’r broses a weithredir yng Nghymru ar gyfer ystyried ceisiadau eithriadol am gyllid, ac ynghylch casglu data am y penderfyniadau a wnaed er mwyn cyfrannu at bolisi yn y dyfodol. (WAQ55625)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Fe'ch cyfeiriaf at yr atebion a roddais ar 18 Medi a 5 Tachwedd 2009. Dosbarthwyd canllawiau dros dro ar 12 Hydref i'r Byrddau Iechyd Lleol yn amlinellu'r arfer da i'w ddilyn wrth ymdrin â cheisiadau am gyllid eithriadol, i sicrhau bod y broses yn agored a thryloyw. Caiff prosesau diwygiedig eu rhoi ar waith o 1 Ebrill 2010 i gwmpasu'r holl benderfyniadau ynghylch cyllid eithriadol a'r hawl i gael triniaeth, gan gynnwys dull o adolygu a chynnal apêl annibynnol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn ei hateb i WAQ55563, a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o sut y caiff y £300,000 ei wario a beth fydd y diben. (WAQ55626)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Swyddogaeth Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU) yw dadansoddi data presgripsiynu a defnyddio'r wybodaeth a gesglir i hyrwyddo presgripsiynu effeithiol ledled Cymru. Caiff yr arian a roddir ei wario ar gostau cynnal yr Uned, gan gynnwys staffio, TG a chyhoeddiadau.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a'r rheini sydd ynghlwm wrth benderfyniadau am achosion eithriadol yn cael yr wybodaeth orau bosibl wrth ystyried defnyddio meddyginiaethau heb label. (WAQ55627)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Fe'ch cyfeiriaf at yr atebion a roddais ar 18 Medi a 5 Tachwedd 2009. Dosbarthwyd canllawiau dros dro ar 12 Hydref i'r Byrddau Iechyd Lleol yn amlinellu'r arfer da i'w ddilyn wrth ymdrin â cheisiadau am gyllid eithriadol, i sicrhau bod y broses yn agored a thryloyw. Caiff prosesau diwygiedig eu rhoi ar waith o 1 Ebrill 2010 i gwmpasu'r holl benderfyniadau ynghylch cyllid eithriadol a'r hawl i gael triniaeth, gan gynnwys dull o adolygu a chynnal apêl annibynnol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o staff a gaiff eu cyflogi gan Uned Cefnogaeth Rhagnodi Dadansoddol Cymru yn 2010-11. (WAQ55628)

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

Nid yw trefniadau staffio Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU) ar gyfer 2010-11 wedi eu cwblhau eto.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd y prosiect Plant! (WAQ55620)

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

Mae'r prosiect Plant! yn rhan o agenda Cymru'n Un Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae'n gynllun arloesol sy'n darparu cymorth ar gyfer coetiroedd cynhenid wrth helpu i greu Coedwig Genedlaethol Gymreig o goed brodorol i weithredu fel suddfan carbon. Mae'r cynllun wedi golygu bod coeden yn cael ei phlannu i ddathlu genedigaeth, neu fabwysiadu pob plentyn yng Nghymru ers ei lansio ym mis Ionawr 2007.

Erbyn diwedd eleni bydd bron 113,000 o goed brodorol wedi'u plannu ar dri safle yng Nghymru yng Nghefn Ila yn Sir Fynwy; Coed Ysgubor Wen yng Ngwynedd a Choed Bryn Oer ym Mlaenau Gwent.

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Choed Cadw, sy'n rheoli'r cynllun ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar hyn o bryd yn ystyried safleoedd pellach fel y gall pobl mewn rhannau eraill o Gymru ymweld â safle Plant! a dysgu am yr amryw fanteision amgylcheddol a ddarperir gan goed.

Mae ymgynghoriad cyhoeddus yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar gyfer safle Plant! newydd ger ystad dai ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, ac os yw canlyniadau'r ymgynghoriad yn gadarnhaol, yna caiff yr ardal hon ei phlannu â choed brodorol dros y blynyddoedd i ddod.

Cafwyd croeso ffafriol iawn i'r cynllun gan y bobl sydd bellach wedi derbyn tystysgrifau yn dilyn genedigaeth neu fabwysiadu plentyn, ac mae'r we-ddolen ganlynol yn cynnig rhagor o wybodaeth am y cynllun:

http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/forestry/plantatree/?lang=cy